



**03442 640 670**

Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg

Adeiladau Cambrian  
Sqwâr Mount Stuart  
Caerdydd CF10 5FL

Cambrian Buildings  
Mount Stuart Square  
Cardiff CF10 5FL

John Griffiths AS  
Cadeirydd, Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

23 Tachwedd 2020

Annwyl John

### **Parthed: Craffu ar COVID-19 a'i effaith ar y sector gwirfoddol**

Mae pandemig Covid-19 wedi dangos rhai o'r goreuon o blith ein cymunedau ledled Cymru, wrth i bobl, sefydliadau a chyrrff cyhoeddus ddod ynghyd i gefnogi ei gilydd.

Yn fy adroddiad diweddar, *Gadael Neb ar Ôl – Camau gweithredu ar gyfer adferiad o blaid pobl hŷn*, cyfeiriais at y gwaith rhagorol a wnaed gan wirfoddolwyr, grwpiau cymunedol ac elusennau yn ystod y misoedd diwethaf.<sup>1</sup>

Bydd fy ymateb i'ch galwad am dystiolaeth yn canolbwyntio ar gyllid a darparu gwasanaeth, y rôl y mae gwirfoddoli wedi'i chwarae yn ystod y pandemig a fy marn ar wytnwch cymunedol ac arfer da, yn ogystal â'r cyfleoedd a'r heriau a allai godi yn y dyfodol.

### **Ariannu**

Mae Covid-19 wedi cyflwyno heriau enfawr i'r sector gwirfoddol, o golli ffrydiau cyllido hyd at ddirywiad mewn rhoddion a chau siopau elusenol, yn ogystal â heriau gweithredol gyda gwirfoddolwyr hŷn yn gorfod mynd ar y rhestr warchod neu hunan-ynysu, ynghyd â delio â staff ar ffyrlo a chadw at ofynion y cyfnod clo.

Yn y cyd-destun hwn, mae Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector yn ceisio chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi sefydliadau gwirfoddol ledled Cymru, gyda mynediad i'r gronfa hon yn cael ei hwyluso trwy Gynghorau Gwirfoddol Sirol lleol tan fis Mawrth 2021. Gan roi sylw penodol i'r gronfa hon, nod tri edefyn *Goroesi, Gwella ac Amrywio* yw annog arloesedd yn ymarferol a galluogi sefydliadau i ehangu cyrhaeddiad i gymunedau newydd.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r CGGC hefyd yn hwyluso mynediad i Gronfeydd Adfer ac Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol, y gwn y bydd llawer o sefydliadau'r sector gwirfoddol ledled Cymru yn eu croesawu'n arbennig. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod llawer o grwpiau cymunedol bach wedi bod yn cyrchu arian a ddsbarthwyd trwy eu hawdurdodau lleol a Chynghorau Gwirfoddol Sirol Lleol, fel y gronfa 'Cefnogi Cymunedau i Weithredu' yn Sir Benfro.<sup>2</sup>

Heb os, bydd mynediad i'r cronfeydd hyn wedi bod yn amhrisiadwy wrth alluogi'r sector gwirfoddol i aros yn weithredol a chynnig cefnogaeth hanfodol i bobl hŷn yn ystod y pandemig. Mae angen cynnal hyn a'i ddatblygu ymhellach er mwyn sicrhau y gall y sector barhau i chwarae ei ran yn y broses ailadeiladu ac adfer, yn ogystal ag adeiladu ar yr arloesi a'r dysgu sydd wedi digwydd dros yr ychydig fisoedd diwethaf.

## **Darparu gwasanaeth**

Fel yr wyf hefyd wedi tynnu sylw ato, mae'r gwaith rhagorol a wnaed gan wirfoddolwyr, grwpiau cymunedol ac elusennau, ochr yn ochr â busnesau lleol a llywodraeth leol, wedi sicrhau bod cymorth a chefnogaeth sylweddol wedi bod ar gael i lawer o bobl hŷn yn ystod y pandemig. Heb hyn, ni fyddai llawer wedi gallu cael gafael ar gymorth hanfodol i gael hanfodion fel bwyd, meddyginiaethau, addasiadau tai a gofal.

Rwyf wedi clywed gan sawl asiantaeth, y gwnaed diwygiadau cyflym i brosesau gweithredu i hwyluso mynediad cyflymach a haws at wasanaethau, fel trawsnewidiadau bron ar unwaith, o weinyddiaeth ar bapur i ddulliau digidol. Rwyf hefyd wedi clywed llawer o enghreifftiau o sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth sydd wedi cytuno ar lwybrau newydd ar gyfer atgyfeiriadau, neu ffyrdd newydd o ddarparu, sydd wedi golygu y gallai pobl hŷn gael mynediad cyflymach at gymorth hanfodol.

Fodd bynnag, mae symud i fodolau gwasanaeth digidol hefyd wedi tynnu sylw at yr allgáu digidol sy'n wynebu llawer o bobl hŷn, a'r effeithiau negyddol o golli'r cyswllt wyneb yn wyneb sy'n gysylltiedig fel arfer â gwasanaethau'r sector gwirfoddol.

## **Rôl gwirfoddoli yn ystod y pandemig**

Effeithiwyd ar unwaith ar y sector gwirfoddol ac ar wirfoddoli, wrth golli gwirfoddolwyr hŷn gan fod angen i lawer fod ar y rhestr warchod neu hunan-ynysu, ac nid yw llawer ohonynt wedi dychwelyd eto i weithgareddau llawn, neu'n methu â dychwelyd iddynt.

Er bod y Cynllun Cadw Swyddi wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol ar nifer y bobl sy'n dewis defnyddio eu hamser i wirfoddoli, mae'r ffyrdd y maent wedi dewis gwneud hynny wedi bod yn amrywiol. Mae sefydliadau gwirfoddol mawr sydd â chynlluniau gwirfoddoli sefydledig wedi darparu llwybr i lawer, ond i eraill, mae dull mwy anffurfiol o gynnig help yn y gymuned wedi bod yn ddull mwy deniadol.

Rwyf wedi clywed gan lawer o sefydliadau gwirfoddol am eu pryderon ynghylch diwedd arfaethedig y Cynllun Cadw Swyddi a cholli gwirfoddolwyr wrth i bobl ddychwelyd i'r gwaith, tra bod lefelau angen yn dal yn uchel. Mae'r pryderon hyn yn debygol o ailgodi ym mis Mawrth pan fydd y Cynllun estynedig i fod i ddod i ben.

## **Gwydnwch Cymunedol, arfer da a chyfleoedd a heriau yn y dyfodol**

Fel y nodais yn 'Gadewch neb ar ôl', mae angen i ni adeiladu ar y gweithredu cadarnhaol a welsom yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, a pharhau i harneisio'r ysbryd cymunedol sydd wedi cyflawni cymaint i gynifer mewn cyn lleied o amser.

Mae cymunedau sy'n gyfeillgar i oedran yn fannau sy'n galluogi pobl i heneiddio'n dda, ar draws pob cyfnod bywyd. Gall y gefnogaeth y mae pobl yn ei darparu i'w gilydd o fewn cymunedau, naill ai'n anffurfiol neu drwy wirfoddoli ffurfiol, chwarae rhan bwysig wrth atal pobl rhag mynd i argyfwng. Yn yr un modd, gall cefnogaeth o'r fath gynorthwyo ailsefydlu a chryfhau cysylltiadau cymunedol ar draws cenedlaethau.

Cyn y pandemig, roeddwn wedi dechrau gweithio gydag awdurdodau lleol ledled Cymru i archwilio sut y gallant wneud eu cymunedau'n gyfeillgar i oedran a dod yn rhan o rwydwaith cymunedau Sefydliad Iechyd y Byd sy'n gyfeillgar i oedran. Mae'r gwaith hwn bellach hyd yn oed yn fwy hanfodol i sicrhau nad yw pobl hŷn yn cael eu gadael ar ôl wrth i gymunedau addasu mewn ymateb i'r pandemig.

### **Casgliad**

Mae'r gefnogaeth a roddwyd i gymunedau ac i bobl hŷn gan wirfoddolwyr yn ystod y pandemig wedi bod yn hanfodol, ac mae'r ffordd y mae awdurdodau lleol, grwpiau cymunedol ac asiantaethau'r trydydd sector wedi gweithio gyda'i gilydd yn rhywbeth na allwn ei golli wrth i ni symud i'r gaeaf, ac edrych ymlaen at adferiad ac ailadeiladu yn sgil Covid-19.

Rhaid cynnwys pobl hŷn ar y daith hon, gan eu bod yn cyfrannu fel gwirfoddolwyr a chyfranogwyr gweithredol gydag eraill yn eu cymunedau.

Rhaid i'r broses o gryfhau dealltwriaeth a chydysafiad rhwng cenedlaethau, a ddangoswyd mewn cymaint o'n cymunedau dros yr ychydig fisoedd diwethaf, fod yn gonglfaen ein hymagwedd. Gyda'n gilydd, gallwn ddangos ein bod yn gwerthfawrogi pob cenedlaeth, a bod pob cenedlaeth yn rhan o'n dyfodol.

*Yours sincerely,  
Helena Herklots*

Heléna Herklots CBE  
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

---

<sup>1</sup> Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. (2020). *Gadael Neb ar Ôl – Camau gweithredu ar gyfer adferiad o blaid pobl hŷn*. Ar gael ar: <https://bit.ly/34Zlc0K>

<sup>2</sup> Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro. (2020). *Cyllid*. Ar gael ar: <https://pavs.org.uk/funding/index.htm>